PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Magill a/ac Sanders |

12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Ralph Cook, Davis a Lomax.

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

14 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

15 : ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL 2015/16

Roedd yr eitem hon yn gyfle i'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Corfforaethol 2015/16 cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol ar Rianta yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf. Roedd yr adrodd eisoes wedi'i graffu gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 14 Mehefin 2016 ac atodwyd y llythyr o'r Pwyllgor i'r adroddiad clawr.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey i'r cyfarfod fel Cadeirydd y Bwrdd Diogelu, a Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwnaeth y Cynghorydd Hinchey ddatganiad ar flwyddyn gyntaf gwaith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a oedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu fframwaith ar gyfer ei waith sy'n mynd ymlaen a byddai'n prosesu prosesau a datblygiad a hyfforddiant fel rhan o'i gynllun gweithredu cyfredol er mwyn sicrhau cyflawni uchelgais y Cyngor; egwyddorau diogelu a chymorth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.

Arhosodd y Cynllun Gweithredu sy'n gynwysedig yn Atodiad B heb ei newid. Sylwyd hefyd y câi nifer o fentrau ymwybyddiaeth a hyfforddiant eu noddi gan y bwrdd, gan gynnwys sesiynau gydag Aelodau Etholedig ac y câi'r rhain eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer y rhaglen ar gyfer 2016/17

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau am y cyflawniadau a wnaed ym mlwyddyn gyntaf y Bwrdd.

- Cydnabu'r aelodau mai hwn oedd adroddiad cyntaf y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a sefydlwyd ym mis Mawrth 2015. Gwerthfawrogwyd bod gwaith sylweddol i'w wneud

o hyd er mwyn sicrhau bod diogelu corfforaethol yn effeithiol ac yn rhan o’r prif ffrwd fel blaenoriaeth graidd.

- Croesawodd yr aelodau y ffaith fod cefnogaeth fewnol ar gyfer y Bwrdd wedi gwella, a bod rhan fwyaf y Cyfarwyddiaethau bellach wedi’u cynrychioli ar y Bwrdd ac y câi unrhyw fylchau eu llenwi’n fuan. Mae’r aelodau’n credu ei fod yn hanfodol bod â’r cynrychiolwyr cywir ar y Bwrdd, i ddarparu cynrychiolaeth a chefnogaeth i Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y cyngor.
- Wedi edrych ar y wybodaeth am gyfansoddiad y Bwrdd a ddarparwyd yn yr adroddiad a ddiweddarwyd yn y cyfarfod, roedd gan yr Aelodau bryderon bod diffyg eglurder o ran a oedd y cynrychiolwyr ar y lefel gywir i achosi newidiadau mewn ymddygiad ac arfer ar draws eu Cyfarwyddiaethau. Mae'r Aelodau'n argymell y dylid myfyrio ar hyn a chymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod y bobl gywir ar y Bwrdd.
- Roedd gan yr Aelodau bryderon ynglŷn â’r diffyg cyflymder y rhoddwyd tystiolaeth amdano yn yr adroddiad, ond sicrhawyd iddynt y byddai'r cyflymder yn cynyddu gyda'r gefnogaeth ehangach ar draws y Gyfarwyddiaeth i'r Bwrdd.
- Mae’r aelodau’n sylwi bod angen diweddaru’r Cynllun Gweithredu i gynnwys cyfeiriadau priodol i ddiogelu oedolion.
- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio'r angen am ymwybyddiaeth gyhoeddus o’r gwaith ar ddiogelu a sut y gall y cyhoedd godi pryderon ynglŷn â diogelu; ar hyn o bryd nid yw gwefan y Cyngor yn cyfeirio’r cyhoedd yn glir at y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a’r Bwrdd Diogelu Oedolion Lleol. Mae’r Aelodau’n argymell y caiff hyn ei unioni’n gyflym, gyda hypergysylltiadau i wefannau priodol ar gyfer y Byrddau hyn.
- Roedd gan yr Aelodau nifer o argymhellion gyda’r nod o gryfhau’r Adroddiad Blynyddol, sef
  - cynnwys gwybodaeth er mwyn cyd-destunoli’r adroddiad, gan gynnwys diffiniadau a graddfa a chwmpas y gwahanol fathau o faterion diogelu yng Nghaerdydd.
  - cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr adran llywodraethu er mwyn rhoi manylion gwell am y cysylltiadau rhwng mecanweithiau diogelu amrywiol Cyngor Caerdydd, gan gynnwys y Pwyllgor Ymgynghorol ar Rianta Corfforaethol a’r byrddau diogelu rhanbarthol – o ran swyddogion cyfrifol ac o ran arfer gweithredol, fel y gall darllenydd nad oes ganddo wybodaeth flaenorol am y strwythur llywodraethu ddeall yn glir rôl pob corff a'r cysylltiadau a'r perthnasoedd rhyngddynt.
  - rhoi manylion am sut fydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cysylltu â'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol, sydd â rôl o arwain datblygiadau o ran polisïau ac arfer, yn ogystal â chynghori Llywodraeth Cymru.
  - cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y caiff yr adroddiadau chwarterol gan Gyfarwyddiaethau eu defnyddio gan y Bwrdd i fonitro perfformiad a chymryd camau gweithredu yn ôl y gofyn.
  - diwygio’r Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn eglur bod gweithredoedd priodol yn perthyn i ddiogelu oedolion yn ogystal â diogelu plant.
  - cynnwys gweithred yn y Cynllun Gweithredu i baratoi hyfforddiant diogelu ar gyfer y nifer o Aelodau newydd a dderbynnir yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2017.
- Teimlai’r Pwyllgor yn gyffredinol nad oedd yr adroddiad blynyddol yn rhoi’r sicrhad gofynnol ynglŷn ag effeithiolrwydd diogelu corfforaethol.
- Teimlai’r Aelodau ei fod yn hanfodol cynyddu cyflymder y newid a bod swyddogion ar draws y Cyngor yn dod yn fwy rhyngweithiol wrth ymgysylltu â materion diogelu corfforaethol yn hytrach na chyfyngu eu gwaith i adweithio i gynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella.
- Sylwodd yr Aelodau fod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig archwilio’r sefyllfa gyfreithiol am Aelodau'n cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Byddai’r Aelodau o blaid defnyddio gwiriadau’r GDG, os bydd y gyfraith yn cefnogi hyn, oherwydd gall ei rôl yn y ward gynnwys fod ar eu pennau eu hunain gydag oedolion sy'n agored i niwed.

- Mae’r Aelodau’n credu y dylai hyfforddiant diogelu fod yn fandadol ar gyfer Aelodau; mae'r Ymrwymiad Caerdydd y gwnaethant ei lofnodi’n ddiweddar yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r aelodau o ran diogelu, ac felly dylai hyfforddiant fod o leiaf yn hanfodol ac roeddent yn awyddus i godi'r mater hwn gyda'r Swyddog Monitro newydd pan fydd yn ei swydd fis Medi 2016.
- Roedd yr Aelodau’n awyddus i weld fideo wedi'i pharatoi i'w defnyddio gyda staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu.

PENDERFYNWYD – y caiff

1. Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol eu diolch am fod yn bresennol er mwyn trafod Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol 2015/16;

2. Llythyr ei anfon gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol, yn amlinellu'r argymhellion sy'n codi o graffu'r Adroddiad Blynyddol.

16 : STRATEGAETH TAI CAERDYDD

Rhoddwyd y cyfle i’r Pwyllgor i ymgymryd â chraffu Strategaeth Tai Caerdydd 2016-2021 cyn penderfynu a chyn ei hystyried yn y Cabinet fis Medi.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod y Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai. Gwahoddwyd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad, gan roi trosolwg o'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu'r strategaeth sylweddol wahanol hon i fynd i’r afael ag angen tai a gwireddu uchelgeisiau'r Cyngor er mwyn darparu tai hygyrch wedi'u gwella i ddinasyddion Caerdydd, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymuned.
Rhoddodd Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol gyflwyniad. Yn adnabod pedair prif nod y Strategaeth; y cysylltiadau gyda’r Cynllun Corfforaethol a’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.
Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau am y Strategaeth a’r cyflwyniad a gwnaed yr arsylwadau a’r sylwadau canlynol hyn.

- ‘Teimlai’r Pwyllgor y gallai’r Strategaeth gyfeirio’n llawnach at gymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd a pha waith yr ymgymerwyd ag ef i sicrhau y caiff eu hanghenion tai penodol eu hasesu a’u cynllunio ar eu cyfer.
- Ystyriodd yr Aelodau y dylid cyfeirio yn yr adran Cydraddoldeb at Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-2020.
- Gofynnodd yr aelodau y dylid egluro y caiff 4,220 o dai fforddiadwy eu darparu dros 5 mlynedd y strategaeth, yn hytrach na dros hyd y CDLl.
- Dymunai'r aelodau i’r strategaeth gyfeirio at y ffaith bod cynllun tai ac ystadau yn hanfodol i sicrhau tai fforddiadwy cynaliadwy o safon y mae preswylwyr yn dymuno byw ynddynt ac sy'n cyfrannu at gymunedau gwydn.
- Sylwodd y gymuned mai’r prif risg i’r Cyngor, sy’n codi o’r cynigion yn y Strategaeth, oedd y tebygolrwydd o gynnydd yn nifer yr eiddo gwag wrth i fentrau tan-feddiannu ddechrau gweithio, oherwydd yn aml mae angen gwaith sylweddol ar yr eiddo hwn er mwyn eu codi i safon addas ar gyfer eu gosod. Yn

ogystal, mae'r aelodau'n sylwi bod cost yr eiddo gwag hwn yn fach o'i chymharu â chost darparu tai tebyg o'r newydd.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion ar gynhyrchu Strategaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn gynhwysfawr ac sydd ag ymagwedd system gyfan. Roedd yn glir bod meddwl sylweddol wedi mynd i mewn i gynllunio a datblygu'r weledigaeth, nodau a chamau gweithredu newydd sy'n gynwysedig yn y ddogfen.
- Roedd yr aelodau hefyd yn falch o'r sicrhad a roddwyd gan Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai ar ddarparu'r llu o gamau gweithredu yn y strategaeth, o fewn adnoddau presennol
- Yn ogystal, roedd yn galonogol i'r Pwyllgor glywed bod y strategaeth wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a landlordiaid y sector preifat, fel sy'n briodol. Mae'r aelodau'n cydnabod y byddai'r strategaeth yn gofyn am weithio'n helaeth mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r camau gweithredu ac yn credu y gall cynnwys yr aelodau ar ddechrau'r broses ond cefnogi a helpu hyn.

I gloi, nododd y Pwyllgor ei fod ar hyn o bryd yn terfynu ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol a bod rhai elfennau o waith wedi'u crybwyll yn y Strategaeth Tai a g

âi eu rhaglennu i gael eu craffu'n fwy manwl.

PENDERFYNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles, gan ddiolch iddi hi a'r swyddogion am fynychu a chyfranogi yn yr archwiliad cyn gwneud penderfyniad ar Strategaeth Tai Caerdydd a rhestru'r argymhellion a'r arsylwadau fel y disgrifir uchod.

17 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMUNEDAU YN GYNTAF 2015/16

Roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, yn arddangos y gwaith a'r cyflawniadau yn 2015/16. Yn ogystal, nod yr archwiliad oedd ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn 2016/17.
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet Dros Datblygu Cymunedau, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai a Louise Bassett, Arweinydd y Tîm Cyflawni Partneriaethau a gafodd eu gwahodd i ateb cwestiynau ar yr adroddiad.

Rhoddodd y Cynghorydd Bradbury ddatganiad, gan ganmol gwaith y tîm Cymunedau yn Gyntaf a'r cyflawniadau a'r buddion roedd hyn wedi dod â nhw i gymunedau a chymdogaethau yn rhai o rannau mwyaf amddifad y ddinas.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion ar yr adroddiad Blynyddol a gwnaed nifer o sylwadau ac arsylwadau.

- Roedd aelodau â diddordeb mawr yn lled y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerdydd a chanlyniadau'r rhain, fel y'u dangoswyd yn yr inffograffegau a'r tablau yn yr adroddiad. Roedd y gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r rhai sy'n cyfranogi yn y digwyddiadau, ac, mewn llawer o achosion i'w teuluoedd a'u cymdogaethau.
- Mae'r Aelodau yn cymeradwyo yr holl rai sy'n ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf, sy'n offeryn hanfodol wrth fynd i'r afael â thlodi cenedliadol.
- Mae'r Aelodau'n cydnabod bod rhoi tystiolaeth am effeithiolrwydd cynaliadwy Cymunedau yn Gyntaf yn gofyn am olwg tymor hirach, er enghraifft trwy edrych ar lefelau o symudedd cymdeithasol a lleihau lefelau a mathau o dlodi a geir yn yr ardaloedd hyn.
- Croesawodd y Pwyllgor y gwelliant yn y cysylltiadau rhwng clystyrau ac ysgolion o fewn yr ardaloedd hyn, sy'n arwain at rieni'n ymglymu'n well mewn addysg a mwy o asiantaethau'n darparu gwasanaethau o'r ysgol. Gallai hyn helpu o ran hybu lefelau cyrhaeddiad y disgyblion, a fyddai yn ei dro yn helpu i gynyddu symudedd a lleihau tlodi.
- Sylwodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i dynnu gwahanol raglenni gwrth-dlodi ynghyd, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a pharhau i fwyafu canlyniadau. Croesawodd yr aelodau hyn mewn egwyddor, a byddent yn aros am fanylion y gwaith hwn gyda diddordeb, a deilliant dyraniadau cyllid i fentrau gwrth-dlodi yn y dyfodol trwy Lywodraeth Cymru yn y misoedd i ddod.
- Roedd yr Aelodau'n falch o glywed eich bod yn cael sgyrsiau rheolaidd gyda chynrychiolwyr perthnasol Llywodraeth Cymru er mwyn esbonio'r gwersi sy'n dod o Gaerdydd o ran cysylltu gwaith gwrth-dlodi a chlystyrau sy'n denu cyllid anllywodraethol.
- Yn ogystal, roedd aelodau'n credu bod gwersi o Cymunedau yn Gyntaf a allai gael eu cymhwyso ar draws y ddinas gyfan; canolbwyntiodd y drafodaeth yn y Pwyllgor

ar fancio amser fel enghraifft o hyn ond roedd yr Aelodau'n sicr bod mentrau ac ymagweddau eraill a fyddai yr un mor drosglwyddadwy.

PENDERFYNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedau, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol, yn diolch iddo ef a'r swyddogion am fynychu a chyflwyno Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf 2015/16 a rhestru'r argymhellion a'r arsylwadau fel y disgrifir uchod.

18 : DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT 2014 – CYNNYDD GWEITHREDU– GWASANAETHAU ATALIOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad briffio manwl, a gafodd ei baratoi gan swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a restrodd:

- Gwaith grŵp gorchwyl a gorffen rhanbarthol Cynllunio a Hyrwyddo Gwasanaethau Ataliol Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwaith y Project Gwasanaethau Ataliol, sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol.
- Crynodeb byr o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod atal yn tanategu pob agwedd ar ddarparu Gofal a Chymorth, ac mae mwy o bwyslais yn ofynnol ar ymyrraeth gynharach, gwasanaethau ataliol cymunedol, ail-alluogi a byw'n annibynnol.
Disgrifiodd yr adroddiad briffio y gwaith yr ymgymerwyd ag ef i fapio'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwasanaethau atalio ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Ystyriodd grŵp gorchwyl a gorffen y Cynllunio a Hyrwyddo Gwasanaethau Ataliol ganfyddiadau'r gwaith hwn a darparodd eu barn am sut i symud gwaith ymlaen orau.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau ar y diweddariad.

- Cydnabu'r Aelodau ei fod yn waith ar y gweill ac mai'r nod oedd ymagwedd gyfannol at wasanaethau ataliol;
- Sylwodd yr aelodau ar gysylltu gwasanaethau o dan un gwasanaeth, gan gynnwys Therapi Galwedigaethol; addasiadau; cyfleoedd dyddiol i'w hadnabod fel gwasanaeth byw'n annibynnol a bod y strategaeth tymor hwy yn cael ei diffinio o h ŷd;
- Sylwodd y Pwyllgor mai nod asesiad y boblogaeth oedd nodi gwasanaethau sydd ar gael a'r bylchau sydd angen mynd i'r afael â nhw;
- Roedd aelodau'n siomedig nad oedd y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Sicrwydd (IAA) wedi'i ddatblygu'n llawn;
- Pwysleisiodd yr aelodau yr angen am fodel o ail-alluogi ac asesu;
- Ymddengys bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar offer ac nid ar ddeilliannau a gweithredodd ond croesawodd yr Aelodau y ffaith bod rhestr o enghreifftiau o bethau i'w hatal wedi'i hadnabod.
- Sylwodd yr Aelodau fod diffyg eglurder o hyd o ran diffiniad gwasanaethau ataliol ac ystyrion nhw bod hyn yn fater i Lywodraeth Cymru ei egluro.

PENDERFYNWYD – y caiff

1. yr adroddiad briffio ei nodi;

2. unrhyw fewnbwn pellach gan Aelodau ar yr adroddiad briffio a chynnydd gael ei anfon at y Prif Swyddog Craffu

19 : ADRODDIAD BUSES Y PWYLLGOR GAN GYNNWYS DIWEDDARIAD AR OHEBIAETH.

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ers 8 Mehefin ar ohebiaeth a anfonwyd ac ymatebion a dderbyniwyd gan Aelodau’r Cabinet.

PENDERFYNWYD – Y nodwyd cynnwys yr amserlen gohebu a’r ohebiaeth a dderbyniwyd.

20 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – bod

1. y Pwyllgor wedi nodi bod Cyd-bwyllgor Craffu gyda Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi’i amserlenni ar gyfer Gorffennaf 2016;

2. trefnwyd cyfarfod arbennig Pwyllgor Craffu’r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau ar gyfer 12 Gorffennaf 2016 am 5.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified